# Datgelu gwybodaeth rhwng asiantaethau ac awdurdodaethau teulu a throseddol: Protocol 2024

## Cwestiynau Cyffredin

Cyflwynwyd y protocol hwn ar 1 Mawrth 2024. Mae'r ddogfen hon yn ymateb i adborth a geisiwyd gan y Pwyllgor Rhyngwyneb Teulu a Throseddol.

## Cyflwyniad i'r Protocol

### C: Beth yw'r gwahaniaeth rhwng achosion cyfraith teulu cyhoeddus a phreifat?

Y prif wahaniaeth yw'r rhan mae'r wladwriaeth yn ei chwarae a natur yr achosion.

Yn gyffredinol, mae **Achosion Cyfraith Teulu Cyhoeddus** yn cael eu cychwyn gan wasanaethau plant awdurdodau lleol i amddiffyn plant yn eu hardal a sicrhau eu bod yn cael gofal digonol a diogel. Mae'r plentyn yn barti yn awtomatig ac fe'i gynrychiolir gan Warcheidwad Plant a benodir gan y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS). Mae'r Gwarcheidwad Plant yn berson annibynnol a'i rôl yw hyrwyddo lles y plentyn a sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar ei gyfer. Y prif fathau o orchmynion yw gorchmynion gofal a gorchmynion goruchwylio sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ofalu am y plentyn neu ei oruchwylio. Fel arfer, gwrandewir yr achosion hyn mewn llys teulu ond weithiau gellir mynd â nhw i'r Uchel Lys, yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr achos.

Fel arfer, ceisiadau am drefniadau ar gyfer plant rhieni sydd wedi gwahanu yw **Achosion Cyfraith Teulu Preifat**. Os nad yw'r rhieni'n gallu cytuno ar ble y dylai'r plentyn fyw a/neu faint o amser y dylai'r plentyn ei dreulio gyda phob un o'i rieni, efallai y bydd angen i'r llys ddatrys y materion hyn.  Anogir rhieni sydd wedi gwahanu i ddefnyddio cyfryngu yn gyntaf, a'r llys fel dewis olaf. Mae CAFCASS yn cynnal archwiliadau diogelu ar gyfer y llys yn gynnar er mwyn i'r llys, lle bo hynny'n briodol, annog rhieni i ddod i gytundeb.

I grynhoi, mae **achosion cyhoeddus** yn ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed ac maent yn aml yn cynnwys ymyrraeth gan y wladwriaeth, tra bod **achosion preifat** yn canolbwyntio ar ddatrys anghydfodau rhwng aelodau o'r teulu heb gynnwys y wladwriaeth oni bai fod angen.

### C: Sut bydd yr heddlu'n gwybod pan fydd achos yn cynnwys achos cyfraith gyhoeddus a ystyriwyd?

Rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r heddlu am achos llys arfaethedig a gwneud ei gais yn Atodiad 1 ar yr adeg y mae'n ymrwymo i'r fframwaith cyn-achos gyda theulu, lle mae'n credu bod gan yr heddlu dystiolaeth sy'n berthnasol i b'un a yw'r plant yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol gan eu rhiant neu brif ofalwr. Rhoddir rhywfaint o gyd-destun ynghylch cyn-achos isod.
Mae'r Canllawiau Statudol ar Orchmynion Llys a Materion Cyn-achos ar gyfer Awdurdodau Lleol yn nodi pan nad yw magu plant yn gwella digon i amddiffyn y plentyn rhag niwed sylweddol, y dylai'r awdurdod lleol gynnal cyfarfod cynllunio cyfreithiol i gael cyngor cyfreithiol am y teulu. Yn y cyfarfod, dylid gwneud penderfyniad mewn egwyddor ynghylch a yw meini prawf y trothwy wedi cael eu bodloni. Yna, dylai'r awdurdod lleol benderfynu, ar sail dadansoddiad trylwyr o lefel y risg a aseswyd, a yw er lles gorau'r plentyn i ddarparu cyfnod pellach o gefnogaeth i'r teulu gyda'r nod o osgoi achos llys, neu a ddylid cychwyn achos

llys ar unwaith. Dylai'r cyfarfod hefyd nodi unrhyw fylchau yn y dystiolaeth, egluro a fydd angen asesiadau ychwanegol, ac ystyried beth fyddai'n gynllun gofal drafft addas ar gyfer y plentyn.

Oni bai fod yr awdurdod lleol o'r farn bod lefel y risg yn gofyn am gais i'r llys ar unwaith, dylai'r awdurdod lleol anfon Llythyr cyn Achos at y rhieni a/neu eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant. Mae hyn yn cychwyn cyfnod cyn-achos na ddylai bara mwy nag 16 wythnos.
Yn ystod y broses cyn-achos, mae'n hanfodol adnabod y materion pwysicaf a lleihau nifer y materion perthnasol cymaint â phosibl a cheisio datrysiad heb achos. Yn y cam hwn, dylai'r awdurdod lleol gasglu tystiolaeth allweddol a gofyn am ddeunydd gan asiantaethau partner craidd, gan gynnwys yr heddlu. Dyma'r cam lle gwneir cais Atodiad 1 i'r heddlu. Mae hyn yn sicrhau, lle nad oes modd osgoi achos, bod yr holl dystiolaeth allweddol eisoes ar gael i alluogi'r Llys i wneud penderfyniad prydlon, gan osgoi oedi i'r plentyn. Mae Atodiad 1 yn helpu'r awdurdod lleol, yr heddlu a chyfreithwyr i rannu gwybodaeth yn gynnar er mwyn gallu gwneud penderfyniadau am fesurau diogelu, cymorth, neu p'un a oes angen achos.

### C: Beth yw ystyr y term 'ymgyfreithwyr drostynt eu hunain'?

'Ymgyfreithwyr drostynt eu hunain' yw pobl sy'n cynrychioli eu hunain mewn achosion cyfreithiol, yn hytrach na chael eu cynrychioli gan gyfreithiwr neu fargyfreithiwr.

### C: Beth yw arwyddocâd y gofyniad "*Rhaid i drefniadau lleol, sy'n cael eu goruchwylio gan bartneriaid diogelu lleol, fynd i'r afael â'r canlynol:*<br>*(Bwled 5) - sut mae awdurdodau lleol yn rhoi gwybod i'r heddlu, ac i'r gwrthwyneb, ar ddechrau achos: mae'r ddau yn gyfrifol am ystyried ar ddechrau eu hachos eu hunain a allai'r llall fod â deunydd, ond mae'r broses hysbysu yn archwiliad pellach i sicrhau ei fod yn cael ei adnabod yn gynnar*"?

Pwrpas y pwynt bwled hwn yw sicrhau bod gan heddluoedd ac awdurdodau lleol drefniant y cytunwyd arno'n lleol ar gyfer delio ag achlysuron pan fydd yr heddlu neu'r awdurdod lleol yn gofyn i'r llall ddarparu deunydd perthnasol. Rhaid i'r trefniadau lleol hyn nodi sut a phryd y gellir gwneud ceisiadau o'r fath.

Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid cysylltu ym mhob achos, ond y bwriad yw y bydd y trefniadau lleol ar waith i hwyluso ymgysylltiad rhwng yr heddlu a'r awdurdod lleol pryd bynnag y bydd angen gwneud cais.

Ni ddylai'r heddlu wneud ceisiadau am ddeunydd trydydd parti gan awdurdod lleol fel mater o drefn. Dim ond pan fyddant yn angenrheidiol ac yn gymesur y dylid gwneud ceisiadau o'r fath, pan fyddant yn cael eu gwneud er mwyn mynd ar drywydd ymholi rhesymol a/neu pan fydd y deunydd a geisir yn berthnasol i fater yn yr achos troseddol.

## Rhan A: datgeliadau gan yr heddlu i achosion teulu

### C: Onid oes gan yr heddlu a'r awdurdodau lleol brosesau ar waith eisoes i rannu gwybodaeth?

Mewn perthynas â materion amddiffyn plant, a allai arwain at achos cyfraith gyhoeddus fel yr amlinellir uchod, mae gan yr awdurdod lleol a'r heddlu ddyletswyddau statudol i gydweithredu a rhannu gwybodaeth yn ôl yr angen i sicrhau bod plant ac oedolion agored i niwed yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a bod eu lles

yn cael ei hyrwyddo. Mae hyn yn digwydd drwy ymchwiliadau a47 o Ddeddf Plant 1989 ar y cyd, cyfarfodydd trafod strategaeth a chynadleddau amddiffyn plant ac ati. Y canllawiau yn y Protocol yw sicrhau bod asiantaethau partner wedi cytuno ar brosesau lleol a'u bod yn deall sut i roi gwybod yn gynnar am achosion yn effeithiol. Rhagwelir mai dim ond pan gredir yn rhesymol bod gan yr heddlu ddeunydd sy'n ofynnol i brofi mater allweddol sy'n destun anghydfod yn yr achos y dylai hyn ddigwydd.

**C: Pwy sy'n gyfrifol am gyflwyno sylwadau ar ran yr heddlu/Gwasanaeth Erlyn y Goron ynghylch datgeliad a geisir gan awdurdod lleol neu lys teulu gan yr heddlu/Gwasanaeth Erlyn y Goron lle ceir ymchwiliadau neu achosion troseddol cyfochrog?**

Mae hynny'n dibynnu ar ba gam y mae'r achos troseddol wedi'i gyrraedd.

Os yw'r achos troseddol ar gam cyn cyhuddo neu wedi dod i ben, dylai'r heddlu arwain ar sylwadau oherwydd eu bod yn gyfrifol am yr ymchwiliad. Dylai ymchwilwyr ymgynghori â gweithdrefnau lleol / cytundebau rhannu a gofyn am gyngor gan Swyddog Diogelu Data'r heddlu lle bo angen.

Os yw'r achos troseddol ar ôl cyhuddo, ond nad yw wedi dod i ben, dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron arwain ar sylwadau oherwydd eu bod yn gyfrifol am yr erlyniad, ac fe ddylent fod mewn sefyllfa i ddweud a oes ganddynt wrthwynebiad i ddatgelu neu a oes ganddynt bryderon ynghylch datgelu. Efallai y bydd gan yr heddlu hefyd sylwadau o safbwynt diogelu, yn dibynnu ar y risgiau a fyddai'n deillio o ddatgelu pellach. Dylai'r ffordd y cyflwynir y sylwadau i'r llys gael ei sefydlu gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, a gallai fod ar ffurf sylwadau ar y cyd drwy un cynrychiolydd.

Un pryder sylweddol i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron fydd datgelu deunydd i bobl a allai fod yn dystion mewn achosion troseddol. Mae'n debyg y bydd rhywun sydd wedi'i gyhuddo ac sydd eisoes yn ddiffynnydd mewn achos troseddol yn gwybod yr achos yn ei erbyn, ond efallai y bydd angen ystyried yn ofalus unrhyw ddatgeliad i dystion a allai roi'r erlyniad yn y fantol.

**C: Os ydw i'n gofyn am "ddeunydd troseddol" a ddylwn i geisio ei gael gan yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, neu'r ddau - onid ydynt yn cadw'r un deunydd? Ddylwn i ofyn am orchymyn?**

Nid yw'r heddlu na Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cadw'r un deunydd. Gall yr heddlu gadw deunydd sy'n berthnasol i ddiogelu nad oes rhaid iddynt ei ddarparu i Wasanaeth Erlyn y Goron, ac nid yw deunydd arall y mae'r heddlu'n ei gael neu'n ei gynhyrchu yn ystod yr ymchwiliad yn cael ei rannu'n awtomatig â Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Yn gyffredinol, mae deunydd troseddol perthnasol yn cael ei gadw gan yr heddlu gan gynnwys deunydd a gynhyrchir gan ymchwiliad troseddol, a dylid gofyn am hwn yn uniongyrchol gan yr heddlu.

Os yw'r deunydd y gofynnir amdano wedi cael ei greu neu ei gael gan Wasanaeth Erlyn y Goron ei hun, dylid gofyn am hyn gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Categori cyfyngedig o ddeunydd yw hwn sy'n ymwneud â phenderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron i erlyn a chynnal yr achos gerbron y llys.

Dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylid gofyn am ddeunydd drwy orchymyn: gweler Atodiad 2 ac Atodiad 3, 1.14 a 4.1-4.3.

## Rhan B: datgeliad a geisir gan ymchwilydd

### C: Pwy yw'r partïon y mae angen iddynt roi trefniadau lleol ar waith i ddefnyddio Atodiad 6 (2.1)?

Bydd pob heddlu'n gyfrifol am benderfynu pwy sy'n gyfrifol am roi trefniadau lleol ar waith mewn perthynas ag Atodiad 6. Gall lefel y tîm a'r arweinyddiaeth amrywio yn ôl strwythur yr heddlu. Gall gynnwys Timau Cyfiawnder Troseddol a / neu Reoli Gwybodaeth. Gall trefniadau lleol nodi'r camau pellach sydd eu hangen i ddefnyddio Atodiad 6 yn effeithiol yn yr ardal leol.

### C: Sut mae ymchwilydd yn gwneud cais Rhan B am 'wybodaeth' i'r awdurdod lleol?

Nid oes ffurflen ragnodedig ar gyfer cais am wybodaeth Rhan B oherwydd mae'r wybodaeth a geisir, a'r wybodaeth y mae'r sawl sy'n gwneud y cais yn gallu ei darparu, yn amrywio. Dylid cynnal y broses hon yn unol â pholisi a gweithdrefn yr heddlu (er enghraifft, gellid gwneud hyn drwy e-bost). Dylai trefniadau lleol nodi beth sy'n gweithio orau a phwy yw'r pwyntiau cyswllt gorau.

### C: Pam nad yw Rhan B yn cynnwys amserlenni ar gyfer datgeliadau y gofynnir amdanynt gan yr heddlu, pan mae Rhan A yn eu nodi ar gyfer darparu datgeliadau i'r heddlu?

Yn fyr, oherwydd bod amserlenni llymach yn y llys teulu ond bod amrywiadau sylweddol gan gynnwys amserlenni llawer hirach yn y llysoedd troseddol. Gall y barnwr mewn achos troseddol wneud cyfarwyddiadau ynghylch y dyddiad pan fydd angen datgelu deunydd trydydd parti, a dylid cyfleu'r terfynau amser hynny a gwneud pob ymdrech i'w bodloni.

### C: Sut mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu a yw'r wybodaeth / deunydd a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn bodloni'r prawf datgelu?

Rhaid i'r Ymchwilydd / Swyddog Datgelu adolygu'r holl ddeunydd perthnasol sydd ganddo ac sydd heb ei ddefnyddio a dwyn sylw Gwasanaeth Erlyn y Goron at unrhyw gynnwys y gellid yn rhesymol ystyried y byddai'n gallu bodloni'r prawf datgelu, gan ddarparu copïau o ddeunydd o'r fath i'w harchwilio.

Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedyn yn adolygu'r deunydd yn unol â Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 a'i God Ymarfer a Llawlyfr Datgelu Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Wrth benderfynu pa ddeunydd sy'n bodloni'r prawf datgelu, rhaid i'r erlynydd roi sylw penodol i ddeunydd sydd â'r potensial i wanhau achos yr erlyniad, sy'n anghyson ag ef a/neu sy'n cynorthwyo'r achos dros y cyhuddedig. Mae deunydd sy'n bodloni'r prawf datgelu yn debygol o fod yn wahanol ym mhob achos, ac yn wahanol i bob person cyhuddedig. Bydd yn cynnwys unrhyw beth sy'n tanseilio achos yr erlyniad ar elfen hanfodol o'r drosedd y cyhuddir rhywun ohoni, tystiolaeth sy'n bwrw amheuaeth ar y cyhuddedig a thystiolaeth sy'n awgrymu nad yw'r cyhuddedig wedi cyflawni'r drosedd gyda'r cyflwr meddwl angenrheidiol.

### C: Beth yw deunydd sensitif CPIA?

Mae deunydd sensitif yn ddeunydd y mae'r swyddog datgelu'n credu y byddai ei ddatgelu yn arwain at risg wirioneddol o niwed difrifol i fudd cyhoeddus pwysig (Cod Ymarfer Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996).

Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, *gall* enghreifftiau o ddeunydd o'r fath gynnwys y canlynol, ymysg eraill:

- deunydd a roddir yn gyfrinachol;
- deunydd lle gallai ei ddatgelu hwyluso pobl i gyflawni troseddau eraill neu lesteirio'r gwaith o atal a chanfod troseddau;
- deunydd a roddwyd i ymchwilydd yn ystod ymchwiliad troseddol sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc ac a gynhyrchwyd gan adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol, Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant neu barti arall y mae ymchwilydd wedi cysylltu ag ef yn ystod yr ymchwiliad;
- deunydd sy'n ymwneud â bywyd preifat tyst.

### C: Sut dylid ymdrin â deunydd sensitif yr ystyrir ei fod yn ddatgeladwy?

Mewn achosion troseddol, lle nodir bod deunydd sensitif CPIA yn bodloni'r prawf datgelu, a bod yr erlynydd yn fodlon y byddai datgelu yn creu risg wirioneddol o niwed difrifol i fudd cyhoeddus pwysig, yr opsiynau yw:

- datgelu'r deunydd mewn ffordd nad yw'n peryglu'r budd cyhoeddus dan sylw;
- cael gorchymyn llys i ddal y deunydd yn ôl - mae hwn yn Wrandawiad Imiwnedd Budd y Cyhoedd (PII);
- rhoi'r gorau i'r achos; neu
- datgelu'r deunydd oherwydd bod y budd cyffredinol i'r cyhoedd o fynd ar drywydd yr erlyniad yn fwy na budd rhoi'r gorau iddo.

Pur anaml y dylid gwneud cais i'r llys am ddal deunydd sensitif yn ôl.

Mewn achosion teulu, gall yr heddlu a/neu Wasanaeth Erlyn y Goron gadw deunydd sy'n berthnasol i achosion llys teulu ond y maent yn ceisio'i ddal yn ôl ar sail niwed difrifol i fudd cyhoeddus pwysig. Efallai y bydd hyn hefyd yn gofyn am wrandawiad i benderfynu a ddylid rhannu'r deunydd.

### C: Ar ba bwynt mewn achos troseddol y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu rhestr i'r heddlu o'r deunydd mewn achos teulu a sut bydd yn gwneud hyn?

Dylai'r awdurdod lleol ddarparu rhestr o'r fath i'r heddlu ar gais. Gall hyn fod drwy gais Rhan B y cytunir arno drwy drefniadau lleol.

### C: Beth yw ffurflen C2 a ble gall yr heddlu ddod o hyd iddi?

Defnyddir ffurflen gais C2 i wneud cais mewn achosion llys sy'n bodoli eisoes yn ymwneud â phlant. Mae'r ffurflen ar gael yma.

### C: Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ffurflen Atodiad 6 a ffurflen C2?

Mae Ffurflen C2 yn ffurflen gais y Llys y mae'n rhaid ei defnyddio er mwyn gwneud cais mewn Achos Llys Teulu sy'n bodoli eisoes. Mae hwn yn ofyniad gorfodol fel y nodir yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu. Er enghraifft, rhaid i'r heddlu ddefnyddio Ffurflen C2 i wneud cais mewn achos Llys Teulu am gyfarwyddiadau sy'n caniatáu i drydydd parti ddatgelu deunydd i'r heddlu, i'w ddefnyddio yn yr ymchwiliad troseddol.

Ffurflen Gais am Ddeunydd Trydydd Parti NPCC yw Ffurflen Atodiad 6. Cafodd ei chreu gan Bortffolio Datgelu Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, sef y ffurflen a argymhellir i bob heddlu ei defnyddio wrth wneud ceisiadau am ddeunydd trydydd parti mewn ymchwiliad troseddol. (Efallai y bydd trydydd partïon yn mynnu bod ceisiadau am ddeunydd yn cael eu gwneud ar eu ffurflenni eu hunain neu drwy borth, a bod ceisiadau o'r fath yn parhau i fod yn ddilys). Mae'r ffurflen hon yn nodi paramedrau pa ddeunydd sydd ei angen ar yr heddlu a pham ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur cael y deunydd; mae'n ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Gellir defnyddio Ffurflen Atodiad 6 i gefnogi, nid i ddyblygu, cais C2. Gall weithredu fel tystiolaeth i gefnogi cais Ffurflen C2 i'r Llys, yn hytrach na ffeilio datganiad gan y Swyddog yn yr Achos.

### C: A ellir defnyddio Atodiad 6 ar gyfer achosion cyfraith breifat?

Gellir defnyddio Atodiad 6 ar gyfer unrhyw fath o gais gan yr heddlu am ddeunydd trydydd parti mewn ymchwiliad troseddol. Gweler uchod am y gofyniad ar gyfer Ffurflen C2 a sut gall Atodiad 6 gefnogi hyn.

### C: Pam mae Atodiad 6 yn cynnwys opsiwn i beidio â rhoi gwybod i'r unigolyn am y cais?

Atodiad 6 yw Ffurflen Gais am Ddeunydd Trydydd Parti NPCC, a ddefnyddir gan heddluoedd ar gyfer pob cais am ddeunydd trydydd parti lle ceir disgwyliad o breifatrwydd. Mae'r amgylchiadau lle defnyddir Atodiad 6 yn ehangach na'r amgylchiadau y mae Protocol 2024 yn berthnasol iddynt. Gellir defnyddio Atodiad 6 i ofyn am ddeunydd sy'n ymwneud â dioddefwr / tyst / unigolyn a amheuir gan unrhyw drydydd parti. Bydd achosion yn codi, yn enwedig wrth ofyn am ddeunydd sy'n ymwneud ag unigolyn a amheuir, lle gellir defnyddio pwerau plismona a gellir gwneud y cais heb fod angen cydsyniad neu gytundeb. Efallai y bydd achosion hefyd lle gallai fod yn niweidiol i'r ymchwiliad pe bai'r unigolyn yn dod yn ymwybodol o'r cais, ac os felly byddai'r heddlu'n cadarnhau hynny ar y ffurflen ac yn peidio â rhoi gwybod i'r unigolyn.

### C: Roedd Protocol 2013 yn cynnwys Atodiad E a oedd yn mynnu bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cadarnhau pryd y byddai deunydd yn cael ei gyflwyno i'r amddiffyniad. Roedd hyn yn golygu y byddai awdurdod lleol yn gwybod gyda phwy y cafodd deunydd ei rannu - onid oes angen rhywbeth tebyg ar Brotocol 2024?

Roedd yr Atodiad E blaenorol yn creu dull gweithredu cyffredinol ar gyfer yr holl ddeunydd a ddarparwyd i Wasanaeth Erlyn y Goron, gan fynnu bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn adrodd ar y ffordd yr ymdriniwyd â phob eitem a ddarparwyd. Roedd Protocol 2024 yn ceisio dileu hyn. Pan fydd yr heddlu a/neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn gofyn am ddeunydd at ddibenion achos troseddol, dylid rhagweld y bydd rhywfaint o'r deunydd neu'r deunydd i gyd yn cael ei ddatgelu i'r amddiffyniad. Felly, rhaid i awdurdod lleol roi sylw manwl i Ran 2 o Atodiad 6, y Ffurflen Ymateb Trydydd Parti, sef lle dylid codi unrhyw bryderon ynghylch datgelu. Gall yr awdurdod lleol, drwy drefniadau lleol, ddarparu dogfen i Wasanaeth Erlyn y Goron y maent yn disgwyl iddo ei defnyddio i gofnodi a chyfleu sut bydd yn defnyddio'r deunydd, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon gan yr awdurdod lleol.

### C: Roedd Protocol 2013 yn mynnu bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gofyn am ddeunydd gan yr awdurdod lleol / llys teulu ar ôl cyflwyno achos yr erlyniad - pam mae hyn wedi newid?

Yr ymchwilydd yw'r ymchwilydd o hyd ni waeth ar ba gam y mae'r achos. Eu cyfrifoldeb nhw a nhw yn unig yw dilyn trywydd ymholi rhesymol. Mae'r ddyletswydd yn parhau o ddechrau'r ymchwiliad hyd at ddiwedd yr erlyniad ac, i raddau mwy cyfyngedig, y tu hwnt i hynny. Mae gan yr erlynydd gyfrifoldeb i gynghori a chynorthwyo mewn perthynas â thrywydd ymholi rhesymol, p'un a yw'r achos ar gam cyn cyhuddo, ar ôl cyhuddo neu ar ôl cyflwyno. Hyd yn oed ar ôl i achos gael ei gyhuddo a deunydd gael ei gyflwyno, gall

ymchwilydd benderfynu bod angen mynd ar drywydd ymholi rhesymol. Felly, ystyrir bod gofyn am ddeunydd trydydd parti yn dal o fewn cylch gwaith yr ymchwilydd.

### C: Beth os bydd yr heddlu'n gwneud cais 'cynnwys popeth' mewn perthynas â deunydd llys teulu neu awdurdod lleol?

Ni ddylai ceisiadau am fynediad at ddeunydd trydydd parti fyth ddigwydd fel mater o drefn. Mae Cod Ymarfer Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (CPIA) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymchwilydd ddilyn pob trywydd ymholi rhesymol.  Ni ddylid byth tybio, oherwydd natur trosedd sy'n destun ymchwiliad, y bydd angen cael gafael ar fathau penodol o ddeunydd. Dylai amgylchiadau'r achos unigol bennu a ddylid gofyn am gofnodion personol.

Dim ond mewn achos unigol y dylid gofyn am ddeunydd trydydd parti os nodwyd ei fod yn berthnasol i fater yn yr achos. Bydd achosion lle nad oes angen ymchwilio i ddeunydd trydydd parti o gwbl, ac eraill lle mae angen craffu'n fanwl. Rhaid cael sylfaen y gellir ei hadnabod yn briodol ar gyfer yr ymholiad, nid dim ond dyfalu. Mae hefyd angen cydbwyso gwerth tebygol posibl y deunydd ag ymyrraeth y broses o'i gael. Dylai'r heddlu bob amser sicrhau bod ceisiadau o'r fath yn gymesur, gan gydnabod yr hawl absoliwt i dreial teg, ac os yw'r heddlu o'r farn nad yw cais yn ymddangos yn angenrheidiol nac yn gymesur, yna dylid holi Gwasanaeth Erlyn y Goron. Dylid ystyried y canllawiau hyn ochr yn ochr â Chanllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Ddatgelu[7].

### C: Pam bod ceisiadau am ddeunydd llys teulu weithiau'n cael eu derbyn yn hwyr yn yr achos?

Gall hyn fod oherwydd nad oedd yn glir o'r blaen bod deunydd y llys teulu yn bodoli neu'n berthnasol i'r achos troseddol sy'n destun ymchwiliad. Dim ond diffynnydd all godi mater yn ei ddatganiad amddiffyn, neu yn ei dystiolaeth, neu gall ddod i'r amlwg drwy ddilyn trywydd ymholi arall, er enghraifft drwy ddod o hyd i dyst arall a siarad ag ef. Lle bynnag y bo deunydd llys teulu yn bodoli ac yn berthnasol, dylech bob amser drafod hyn gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron cyn gynted â phosibl er mwyn atal ceisiadau am ddeunydd o'r fath rhag cyrraedd yn hwyr yn yr achos.

## Rhan C: gwrandawiadau cyfarwyddo cysylltiedig

### C: A yw'r union fecanweithiau yn Rhan C ar gyfer gwrandawiadau cyfarwyddo cysylltiedig yn orfodol?

Na, mae egwyddor ac ysbryd gwrandawiadau cyfarwyddo cysylltiedig yn bwysicach na'r union fecanweithiau a gynigir yn Rhan C sy'n ganllaw a gellir eu haddasu i gyd-fynd ag achos penodol.

Pan fydd achosion teulu a throseddol yn cydredeg, dylid canolbwyntio ar sicrhau bod y partïon ym mhob set o achosion yn ymwybodol o'r llall, drwy ba fecanwaith bynnag sy'n gweddu orau i'r amgylchiadau. Mae hynny'n golygu bod modd ystyried a fyddai gwrandawiad cyfarwyddo cysylltiedig yn briodol. Gall gwrandawiadau cyfarwyddo cysylltiedig fod yn weithdrefn werthfawr. Maent yn galluogi rhannu gwybodaeth lle bo hynny'n briodol, fel gwybodaeth am y dogfennau ym mhob set o achosion. Maent hefyd yn golygu y gellir rhoi esboniad i'r barnwr teulu a throseddol ar yr un pryd pan fydd materion yn ymwneud â datgelu.